**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2007**

**CYNLLUN GWELLA DRAFFT 2007-08**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr adroddiad

**1.** I gyflwyno Cynllun Gwella 2007-08 drafft Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am gymeradwyaeth cyn ei gyhoeddi ar 31ain Hydref 2007.

## Cyflwyniad

**2.** Roedd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub gyhoeddwyd yn 2005 yn cadarnhau byddai Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn dod yn amodol i Raglen Cymru ar Gyfer Gwella i Dân ac Achub (WPI-FRA).

**3.** Mae cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu'r canllaw WPI-FRA wedi bod yn araf, gyda Cynulliad Cymru yn gohirio ei gyhoeddi fwy nag unwaith. Yr arwyddion diweddaraf yw y bydd gorchymyn drafft yn cael ei gyflwyno yn Rhagfyr 2007.

**4.** Yn y cyfamser, mae angen i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi eu Cynllun Gwella Blynyddol erbyn 31ain Hydref, ac i gyflwyno'r cynllun am archwiliad ffurfiol.

**5.** Mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad i wasanaethau tân a achub, mae'r Cynulliad yn parhau i weithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddatblygu cyfres newydd o Ddangosyddion Strategol a Chraidd, i'w defnyddio o 2007-08 ymlaen.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**6.** Er mwyn cyflwyno llun llawnach o berfformiad cyfan a gwella parhaol yr Awdurdod, mae'r canllaw drafft yn argymell y dylai awdurdodau "adrodd ar eu Cynllun Lleihau Risg (RRP) ac/neu Gynllun Gweithredol Blynyddol y Cynllun Lleihau Risg ac ar berfformiad a gwella o dan y broses WPI-FRA mewn modd cydlynol".

**Gwybodaeth**

**7.** Mae fersiwn Awst 2007 o ganllaw drafft y WPI-FRA wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer Cynllun Gwella eleni; mae perfformiad yn 2006-07 yn cael ei ddangos yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau blaenorol; ac mae disgrifiad o sut fydd perfformiad yn cael ei asesu yn 2007-08 yn seiliedig ar y fersiwn diweddaraf o'r dangosyddion drafft cyn-ymgynghoriad. Mae Cynllun Gwella 2007-08 drafft ynghlwm ar cymeradwyaeth Aelodau.

**8.** Mae manylion y Cynllun Lleihau Risg wedi eu cynnwys yn seiliedig ar argymhellion y Panel Gweithredol i'r Awdurdod Tân, ond gallai newid yn unol â phenderfyniadau gymerir ar 15fed Hydref 2007.

**Argymhellion**

**9.** Fod Aelodau:

**9.1** yn nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2007-08 cyn 31ain Hydref 2007; ac

**9.2** i gymeradwyo'r Cynllun Gwella drafft 2007-08 mewn egwyddor, ac i unrhyw ddiwygiadau neu gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun gael eu hanfon i'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) erbyn 25ain Hydref 2007 er mwyn i'r Awdurdod allu cyhoeddi'r Cynllun erbyn 31ain Hydref 2007, a

**9.3** dirprwyo pwerau i'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 15fed Tachwedd 2007, i gymeradwyo'r ddogfen Gynllunio derfynol ar gyfer 2007/08.